# Cyfrifiannell AMU
## Canllawiau ar gyfer 2023
### *Cwblhau Cyfrifiad AMU 2022*

**O fis Ionawr 2023, y flwyddyn 2022 fydd cyfnod adrodd newydd y cyfrifiannell AMU. Os bydd cleient yn cael ei ddewis ac nad oes unrhyw fentrau wedi'u cadw ar y cyfrifiannell AMU ar gyfer y cleient hwn, yna gallwch fwrw ymlaen â'r cyfrifiad fel y byddech yn ei wneud fel arfer. Os yw cyfrifiad AMU 2021 y cleient wedi'i gwblhau a'ch bod yn bwriadu cwblhau cyfrifiad 2022, bydd y canllawiau hyn yn ddefnyddiol.**

## Os defnyddir BCMS ar gyfer niferoedd gwartheg:

** Neidiwch i'r ail dudalen os nad yw eich practis yn defnyddio mewnforyn BCMS **

**1.** Yma gallwch weld yn y sgrinlun isod bod y mentrau yn dal i gael eu cadw o'r flwyddyn flaenorol. Os nad yw menter bellach yn berthnasol i'r fferm yna gellir dileu'r fenter hon gan ddefnyddio'r botwm 'Dileu'. Os oes angen i chi ychwanegu menter ychwanegol, yna cliciwch ar y botwm 'Creu Menter Newydd'. Fel y gallwch weld, mae niferoedd cyfrifiad yr anifeiliaid yn ymddangos o'r cyfrifiad blaenorol, ochr yn ochr â'r dyddiad mewnforio diwethaf. Unwaith y bydd mewnforyn newydd wedi'i gwblhau yn y cam nesaf: aseinio anifeiliaid, yna bydd y niferoedd hyn yn cael eu diweddaru.




**2.** Unwaith y byddwch wedi symud ymlaen i'r adran aseinio anifeiliaid. Fe welwch fod yr anifeiliaid o fewnforyn diwethaf BCMS yn cael eu rhestru. Nawr mae angen i chi gwblhau mewnforyn newydd ar gyfer y Cyfrifiad AMU 2022 newydd. Os byddwch yn clicio ar 'Mewnforio Anifeiliaid o VetIMPRESS' ac yn mewnforio niferoedd y gwartheg fel yr arfer, yna bydd y rhestr fewnforio hon yn cael ei diweddaru, gan ddangos y gwartheg perthnasol ar gyfer y cyfnod adrodd newydd. Os oes Menter Ddefaid, bydd angen i chi glicio ar y tab Defaid i nodi'r ffigurau defaid wedi'u diweddaru ar gyfer cyfnod adrodd 2022.



## Cyfrif niferoedd anifeiliaid â llaw:




Yma gallwch weld yn y sgrinlun uchod bod y mentrau yn dal i gael eu cadw o'r flwyddyn flaenorol. Os nad yw menter bellach yn berthnasol i'r fferm yna gellir dileu'r fenter hon gan ddefnyddio'r botwm 'Dileu'. Os oes angen i chi ychwanegu menter ychwanegol, yna cliciwch ar y botwm 'Creu Menter Newydd'. Bydd niferoedd cyfrifiad yr anifeiliaid yn diweddaru unwaith y bydd ffigurau 2022 wedi'u cofnodi.
Yn y sgrinlun isod, fel y gwelir yn y cylch coch, os cliciwch ar 'Defnyddiwch Gyfrifiad Anifeiliaid yn lle hynny,' byddwch yn gallu cofnodi niferoedd gwartheg 2022. Unwaith y byddwch wedi cofnodi niferoedd y gwartheg, os oes menter ddefaid ar y fferm, yna byddwch yn gallu clicio ar y botwm 'Defaid' a chofnodi niferoedd defaid 2022 fel arfer.




## Mewnforio Trafodion Gwrthfiotig:

Pan gyrhaeddwch y cam mewnforio gwrthfiotig, efallai y byddwch yn gweld bod rhai gwrthfiotigau 2022 yn ymddangos o'ch mewnforyn diwethaf.
Hyd yn oed os yw hyn yn wir, dylid cwblhau mewnforyn newydd bob amser. Ewch ymlaen fel arfer, a chliciwch ar 'Mewnforio pryniannau gan VetIMPRESS' i ddilyn y camau a mewnforio'r rhestr lawn o wrthfiotigau 2022.
Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn ac yn hapus bod y rhestr o wrthfiotigau 2022 yn gywir, byddwch yn gallu parhau i'r cam nesaf: Adrodd ar Ddefnydd Gwrthficrobaidd.
Unwaith y byddwch wedi cyrraedd y cam adrodd, byddwch yn gallu Cadw a Chyflwyno Cyfrifiad AMU 2022 fel arfer.



# MANYLION CYSWLLT

***Gogledd Cymru a'r Canolbarth:***

Grace Rees-Jones ▪ 07776950444 ▪ gracerj@wlbp.co.uk

***De Cymru:***

Marged Simons ▪ 07384857461 ▪ margeds@wlbp.co.uk